22 Awst 2024

Cynllun Deuoli A4119 Coed-elái – Newid i Lif Traffig tua'r Gogledd

Annwyl Breswylydd/Perchennog Busnes,

Wrth i'n gwaith fynd rhagddo ar y cynllun, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ein bod yn paratoi i agor rhan o'r ffordd newydd tua'r gogledd o'r A4119 i draffig. Bydd hyn yn digwydd yn oriau mân **dydd Mawrth, 3 Medi 2024.**

Bydd hyn yn gweld traffig tua'r gogledd o gylchfan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn dynesu at y rhwystr igam-ogamu ar ben y bryn ac yna'n parhau yn syth ymlaen, yn hytrach na chroesi i'r ffordd tua'r de yn unig. Er mwyn hwyluso cysylltiad y ffordd newydd tua'r gogledd, bydd angen i ni ddefnyddio goleuadau traffig am tua 30 munud i reoli'r llif traffig lleiaf disgwyliedig wrth i ni wneud y gwaith angenrheidiol i agor y rhan newydd o'r ffordd, sy'n cynnwys peintio llinellau gwyn.

Unwaith y bydd wedi'i chysylltu, bydd y ffordd yn aros fel un lonydd sengl i'r ddau gyfeiriad am y tro. Bydd y lonydd allanol yn cael eu cau gyda chonau wrth i ni barhau i wneud gwaith hanfodol ar ymylon y ddwy ffordd, a bydd y terfyn cyflymder o 20mya yn parhau mewn grym. Felly bydd traffig yn defnyddio'r lonydd mwyaf mewnol yn unig i bob cyfeiriad hyd nes y bydd ein gwaith hanfodol ar yr ymylon ac o'u hamgylch wedi'u cwblhau.

NODER: Dyma'r cyntaf o blith nifer o newidiadau wedi'u trefnu i'r lonydd wrth i'r prosiect fynd rhagddo; byddwn yn rhoi gwybod i chi amdanynt maes o law.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon mewn perthynas â'n gwaith, cysylltwch â Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd y cynllun, Rich Foxhall rhwng 08.30 a 17.30 (dydd Llun i ddydd Gwener) drwy ffonio ***03300 412 185**.

Os ydych chi'n ffonio y tu allan i'r oriau hyn, neu os na all Rich ateb, gadewch neges a bydd yn dod yn ôl atoch cyn gynted ag y gall.

Fel arall, gallwch gysylltu â thîm y safle drwy anfon e-bost i A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk .

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad parhaus yn ystod y cam hwn o'r prosiect ac ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra a achosir.

Yn gywir

Rich Foxhall
Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd

*****_Codir tâl ar alwadau i'r rhif hwn ar gyfraddau galwadau cenedlaethol ac fe'u cynhwysir mewn cynlluniau munud cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol._